Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

colegsirgâr

colegceredigion

# Datganiad Grŵp yn unol ag a.54 Rhan 6 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

# CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD GAN IS-GANGHELLOR GRŴP Y DRINDOD DEWI SANT ... 1
2. STRWYTHUR Y DRINDOD DEWI SANT ... 1
3. POLISÏAU'R DRINDOD DEWI SANT AR GAETHWASIAETH A MASNACHU POBL ... 1
4. PROSESAU DIWYDRWYDD DYLADWY'R DRINDOD DEWI SANT AR GYFER CAETHWASIAETH A MASNACHU POBL ... 2
5. PROSESAU HYFFORDDI A MONITRO ... 2

DRAFT

## 1. CYFLWYNIAD GAN IS-GANGHELLOR GRŴP Y DRINDOD DEWI SANT

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac mae'n tramgwyddo hawliau dynol sylfaenol. Fe'i ceir ar ffurfiau amrywiol, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfod a llafur gorfodol a masnachu pobl. Mae Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ymrwymedig i ddiogelu a pharchu hawliau dynol ac mae ganddo ymagwedd dim goddefgarwch tuag at gaethwasiaeth a masnachu pobl ar bob ffurf. Gwneir y datganiad blynyddol hwn yn unol ag Adran 54, Rhan 6 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n gosod allan y camau y mae'r Drindod Dewi Sant wedi'u cymryd ac y bydd yn eu cymryd mewn cysylltiad â chaethwasiaeth a masnachu pobl.

## 2. STRWYTHUR Y DRINDOD DEWI SANT

Mae'r Drindod Dewi Sant yn grŵp sefydliad addysg uwch a grëwyd drwy Siarter Frenhinol, ein cyfeiriad cyfreithiol yw Ffordd y Coleg, Caerfyrddin ac rydym yn gweithredu yn y Deyrnas Gyfunol. Gellir gweld ordinhadau'r Brifysgol sy'n dangos ein strwythur yn:

https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/governance/uwtsd-ordinances.pdf

Mae'r Drindod Dewi Sant yn addysgu myfyrwyr o bob cwr o'r byd ac mae'n ceisio recriwtio, datblygu a chadw'r staff gorau at y diben hwnnw.

## 3. POLISÏAU'R DRINDOD DEWI SANT AR GAETHWASIAETH A MASNACHU POBL

Mae'r Drindod Dewi Sant yn ymrwymedig i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn unrhyw ran o'n busnes. Adlewyrcha'r datganiad hwn ein hymrwymiad i weithredu'n foesegol ac â gonestrwydd yn ein holl berthnasoedd busnes, gan barchu hawliau dynol, a gweithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol er mwyn sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn unrhyw fan y tu fewn i'n busnes.

Mae'r Drindod Dewi Sant yn prynu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau, yn unol â deddfwriaeth caffael cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau a chyflenwadau adeiladu, celfi a nwyddau swyddfa, electroneg (cyfrifiaduron, clyweledol ac ati), cyflenwadau bwyd ac arlwyo, gwasanaethau teithio, cyflenwadau labordai (offer, cemegau, deunyddiau fferyllol ac ati), llyfrau ac argraffu, a gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Prynir cyfran fawr drwy fframweithiau a sefydlwyd gan gonsortia cydweithredol yng Nghymru.

Oherwydd effeithiolrwydd y protocolau a'r polisïau AD sydd gan y Drindod Dewi Sant yn eu lle, mae'r risg o gaethwasiaeth fodern ar ein campysau'n isel. Fodd bynnag, cydnabyddwn y gall fod risgiau'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi byd-eang o ran y nwyddau a'r gwasanaethau a gafaelwn a bod caethwasiaeth fodern fel arfer yn gudd. Mae'r Drindod Dewi Sant yn gweithio gydag eraill yn cynnwys prifysgolion, cyrff caffael, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol yng Nghymru i rannu gwybodaeth a lliniaru risgiau pryd a lle bo'n briodol.

## 4. PROSESAU DIWYDRWYDD DYLADWY'R DRINDOD DEWI SANT AR GYFER CAETHWASIAETH A MASNACHU POBL

Yn rhan o'n menter i ddynodi a lliniaru risg mae gennym systemau yn eu lle neu rydym yn gweithio tuag at ddatblygu systemau yn y Drindod Dewi Sant i wneud y canlynol:

- Dynodi ac asesu meysydd risg posibl yn ein busnes.
- Lliniaru'r risg y bydd caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein busnes a busnes ein partneriaid.
- Monitro meysydd risg posibl yn ein busnes.
- Diogelu chwythwyr chwiban a allai adrodd ar faterion yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern.
- Diweddaru polisïau'r Brifysgol er mwyn sicrhau y daw mater caethwasiaeth fodern yn ystyriaeth wrth gynnal ein busnes o ddydd i ddydd ac yn ein cadwynau cyflenwi.

Mae'r Drindod Dewi Sant yn aelod o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru (HEPCW) sydd, yn ei dro, yn gweithio'n effeithiol wrth ochr cyrff cyfatebol Consortia Pwrcasu Prifysgolion y DG a grwpiau cenedlaethol, y mae'n mwynhau perthnasoedd blaengar a llwyddiannus â nhw.

Yn rhan o brotocolau caffael sefydledig, cyflawnir asesiadau risg yn gyfredol drwy fframweithiau caffael dan reolaeth, a defnyddiwn Electronics Watch yng nghyswllt caffael offer TG ar gyfer y Brifysgol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda SAU eraill yng Nghymru a Llywodraeth Cymru o ran cofrestru gyda Net Positives, sy'n monitro cyflenwyr, ac er mwyn cynyddu ymhellach ein goruchwyliaeth gyffredinol ar gaffael rhag ofn y ceir caethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

## 5. PROSESAU HYFFORDDI A MONITRO

Mae'r Drindod Dewi Sant yn gwneud staff yn ymwybodol o faterion yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern mewn sesiwn gynefino, ac mae'n gweithio tuag at ddarparu pecyn hyfforddi ar-lein ar gyfer holl staff y Brifysgol er mwyn sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein busnes. Yn yr un modd mae'n fwriad gennym ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol presennol i gynnwys mater Caethwasiaeth Fodern a'r modd y mae'r Brifysgol yn ymwneud â'r mater arwyddocaol hwn yn ei busnes o ddydd i ddydd ac yn ei chadwyni cyflenwi.

Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fydd yn monitro gweithredu materion o fewn y datganiad hwn.

**YN YSTOD 2018-19 GWNAWN Y CANLYNOL:**

1. Datblygu ymhellach brosesau diwydrwydd dyladwy effeithiol ac asesiadau risg manylach o fewn ein prosesau caffael; a
2. Datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth Caethwasiaeth Fodern a'i roi ar waith ar gyfer staff allweddol yn y lle cyntaf o fewn maes caffael y Brifysgol; a
3. Gweithio'n gydweithredol â thimau proffesiynol ac academaidd i ddeall ein cadwyni cyflenwi'n well a dynodi meysydd risg, gan hysbysu swyddog cyswllt enwebedig y Brifysgol dan y Cod am hynny.

Awdur(on) y Datganiad: Paul Osborne Swyddog Diogelu Data

Rheoli Fersiynau Dogfennau

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Mae wedi'i gymeradwyo yn yr Uwch Dîm Rheoli. | PO | 19.03.19 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Statws presennol y Polisi: cymeradwywyd gan yr UDRh 19 Mawrth 2019
Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: AB ac AU
Dyddiad ei gadarnhau: fel uchod
Dyddiad y daw i rym: 19 Mawrth 2019
Dyddiad adolygu'r polisi: 31 Rhagfyr 2019
I'w gyhoeddi: ar Wefannau AB ac AU